# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD :** | **10 EBRILL 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14. Mae’r Rheolwr Archwilio’n adrodd ar gynnydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i’r Pwyllgor Archwilio sy’n caniatáu ar gyfer gwerthuso’r fframwaith rheoli mewnol yn barhaus fel yr adlewyrchir hynny yn y gwaith archwilio.

**1.2** Daeth set gyffredin o Safonau Archwilio Mewnol Llywodraeth Leol i rym o 1 Ebrill 2013. Mae’r Safonau’n berthnasol i holl ddarparwyr gwasanaeth archwilio mewnol llywodraeth leol ac fe’i mabwysiadwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ar gyfer 2013/14.

## 2. ALLBYNNAU A GYNHYRCHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

**2.1** Mae’r adroddiad dilynol yn dangos cymhariaeth rhwng y nifer o archwiliadau a gynlluniwyd gyda’r nifer gwirioneddol o archwiliadau a wnaed fel ar 31 Mawrth 2014. Fel yn unrhyw flwyddyn, yn 2013/14 bu’n rhaid diwygio’r cynllun archwilio i gymryd nifer o wahanol ffactorau i ystyriaeth trwy gydol y flwyddyn. Flwyddyn yma, roedd y ffactorau’n ymwneud yn bennaf â gwaith ychwanegol oedd ei angen i gyfarfod â risgiau oedd yn dod i’r amlwg ac atgyfeiriadau. Yn benodol felly, gofynnwyd i’r Adain Archwilio Mewnol wneud gwaith y tu allan i’r Cynllun Archwilio mewn perthynas â gweithredu system CIVICA a gwaith ychwanegol y gofynnwyd amdano gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

**2.2** Cynhaliwyd 51 o adolygiadau arweiniwyd at adroddiad ffurfiol (Terfynol a Drafft/agos at ddrafft) yn ystod 2013/14, o gymharu â 56 yn y Cynllun Gweithredu gwreiddiol ar gyfer Archwilio Mewnol. Cafodd pump o adolygiadau naill ai eu gohirio i 2014/15 neu eu disodli ar gais noddwyr yr adolygiad neu am resymau eraill. Cynhaliwyd 13 o adolygiadau nad oeddynt wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ac na chawsant eu cynllunio’n wreiddiol ar gyfer y cyfnod hwn ond oedd yn angenrheidiol i ddibenion risg a/neu gydymffurfiaeth neu o ganlyniad i waith sy’n ymwneud â chyfeiriadau. Ni chafodd 15 o adolygiadau a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun gwreiddiol ac na chawsant eu disodli neu eu gohirio eu cynnal yn ystod y cyfnod.

**2.3** Mewn achosion lle na chafodd yr adolygiadau eu cynnal yn 2013/14 ond bod lefel o risg yn golygu bod yr angen i’w cynnal yn parhau, maent wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2014/15.

**2.4** Cwblhawyd yr holl adolygiadau ariannol allweddol yn y Cynllun ar ffurf adroddiad gyda’r eithriad o Rhenti Tai (gwaith yn mynd rhagddo), Rheoli Trysorlys (trafodwyd) a Budd-dal Tai (trafodwyd).

**2.5** Yn ychwanegol at y gwaith ar Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14, treuliwyd amser yn ystod chwarter cyntaf 2013/14 yn cwblhau gwaith o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2012/13 a chyhoeddwyd naw o adroddiadau terfynol yn ystod y cyfnod hwn.

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**3.1** Bob blwyddyn bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer meincnodi ar lefel Cymru gyfan yn erbyn dangosyddion sy'n ymwneud â chost ac allbwn. Fe wneir y gwaith meincnodi hwn ym mis Mai/Mehefin ym mhob blwyddyn ac, felly, nid oedd y canlyniadau ar gyfer 2013/14 ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

**3.2** Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi, byddant yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad cynnydd nesaf ar Archwilio Mewnol

**3.3** Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn gosod targedau ar gyfer y Tîm bob blwyddyn ac mae'r perfformiad yn erbyn y targedau hyn wedi ei nodi isod ynghyd â data o'r flwyddyn flaenorol i bwrpas cymharu.

| Mesur Perfformiad | Targed 2013/14 | Gwirioneddol 2012/13 | Gwirioneddol 2013/14 |
|---|---|---|---|
| % o adolygiadau 2013/14 a gwblhawyd ar ffurf ddrafft yn ystod y flwyddyn - yn dilyn diwygio o ran y rheiny a ddisodlwyd ac a ohiriwyd a chan ychwanegu'r adolygiadau newydd a gynhaliwyd yn eu lle yn ystod y flwyddyn - gweler paragraff 2.2 uchod os gwelwch yn dda. Cyhoeddwyd 51 adroddiad o'i gymau â'r 56 yn y cynlyn - 91% | 90% | 81% | **91%** |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | **100%** |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd - o 01/04/11 fel yr oedd ar 03/04/14. | 80% | 53% | **46%** |

**3.4** Mae'r ganran o argymhellion Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed, sef 53%.

**3.5** Adroddwyd yn y cyfnod ar faterion Archwilio Mewnol gan gynnwys gwelliannau o ran cyfraddau gweithredu. Yn ystod 2013/14, diwygiwyd fformat yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol fel bod manylion am yr argymhellion categori Uchel a oedd yn parhau i fod angen sylw yn cael eu hamlygu er gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Mae adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol bellach yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er eu gwybodaeth a'u cefnogaeth er mwyn sicrhau fod risgiau lefel Uchel a adnabuwyd yn cael y sylw priodol. Bwriedir i'r gwelliannau hyn o ran adrodd ar faterion gynorthwyo i sicrhau cynnydd o ran gweithredu ar argymhellion Archwilio Mewnol yn 2014/15.

**3.6** Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r holl argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw yn Ebrill 2014 ac, unwaith eto yn 2014/15, bydd yn gweithio gyda Gwasanaethau i ddiweddaru'r system 4Action gyda'r data gweithredu diweddaraf a fydd, gobeithio, o gymorth i sicrhau gwelliant yn erbyn targedau.

**3.7** Ar gyfer 2014/15 bydd Archwilio Mewnol unwaith eto'n adolygu'r fformat o adrodd ar adolygiadau a gwblhawyd a'u canlyniadau i'r Pwyllgor ynghyd â sut weithredir ar fonitro ac adrodd ar argymhellion adolygiadau unigol.

**3.8** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried os yw'n credu fod adrodd ar holl ganlyniadau adroddiadau a chynnydd ar weithredu argymhellion yn cael eu hadrodd yn briodol i'r Pwyllgor.


## 4. CASGLIADAU CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWYD

**4.1** Mae tabl 1 yn dangos nifer yr adolygiadau a wnaed yn 2013/14 lle rhoddwyd barn Gwyrdd; Gwyrdd/Ambr; Coch/Ambr neu Goch. Mae'n cynnwys y diffiniad ar gyfer pob lefel sicrwydd.

**Tabl 1**

| Graddfa/ Barn Cag | Beth yw ystyr y Barn/Graddfa CAG | System/Risg 2013/14 |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 17 |
| **Gwyrdd Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 11 |
| **Coch Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 4 |
| **Coch** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 1 |
| **Ymgynghorol/Cyfeiriad** | Adolygiad ymgynghorol wedi'i ddylunio i ddarparu cyngor o ran arferion gorau - dim barn ffurfiol. | 14 |
| **Disgwyl Adroddiad** | Cwblhawyd y gwaith maes ond ni chyhoeddwyd adroddiad Drafft na Therfynol gyda barn CAG fel ar 31/03/14. | 4 |
| | Cyfanswm | 51 |

**Tabl 2 – Siart Olwyn o'r Farn CAG**




**4.2** Dangosir yn graffigol yn nhabl 2, ganlyniadau cyffredinol ein gwaith Archwilio Mewnol sydd wedi arwain at farn sicrwydd CAG yn y cyfnod. Dangosir yn y tabl fod 28 (85%) o'r fath adolygiadau wedi arwain at farn 'gadarnhaol' (Gwyrdd neu Wyrdd/Ambr) a 5 (15%) at farn 'negyddol' (Coch a Choch/Ambr). Mae'r 15 o adroddiadau a dderbyniodd farn negyddol yn cynnwys tri o adroddiadau yn ymwneud yn benodol â gweithredu system fawr newydd yn systemau CIVICA - sef y lejer, Credydwyr a Dyledwyr.

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer y systemau a adolygwyd yn farn Gwyrdd/Ambr cadarnhaol a hynny'n unol â'r farn yn y blynyddoedd blaenorol.

**4.3** Mae'r Farn CAG yn gyffredinol yn golygu bod y risg i'r Awdurdod yn fychan iawn neu'n isel a hynny'n seiliedig â'r sgôp y gwaith a wnaed, bod y camau a argymhellwyd i reolwyr yn cael eu gweithredu a bod y systemau hynny'n parhau i weithredu'n unol â'r bwriad.

**4.4** Mae'r Rheolwr Archwilio, fodd bynnag yn ymwybodol o feysydd lle y byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol yng nghyswllt y systemau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:-

- **Parhad Busnes** - Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o ran cryfhau ei drefniadau Parhad Busnes sydd wedi cael eu nodi fel gwendid gan nifer o ddarparwyr sicrwydd, gan gynnwys Archwilio Mewnol. Gohiriwyd rhoi sylw i'r materion oherwydd cyd-weithio rhanbarthol a newidiadau i'r cyfrifoldeb rheolaeth llinell o'r swyddogaeth. Ar amser ysgrifennu'r adroddiad, deallir fod cryfhau Parhad Busnes ar hyn o bryd ar y rhestr prosiectau a nodir fel blaenoriaethau canolig/isel o fewn y broses trawsnewid.

- Mae'r Cyngor yn parhau i fod heb Bolisi Adfer TGCh ar ôl Trychineb ac roedd gwaith yn parhau i gael ei wneud ar ddiwedd y cyfnod i gwblhau trefniadau Parhad Busnes y Cyngor ac i gryfhau'r prosesau adfer ac wrth gefn y serfer Cyllid.

- **Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Fframwaith Rheoli Risg ac nid yw rheoli risg wedi sefydlu'n gadarn eto yn yr Awdurdod. Bydd gwaith datblygu'n cael ei wneud yn 2014/15. Yn y cyfamser, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg fframwaith rheoli risg yn parhau.

  Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ond ar ddiwedd y cyfnod nid oedd camau lliniaru wedi eu cofnodi yn y Gofrestr Risg Corfforaethol ac nid oedd ynddi sgorau risg gweddilliol chwaith. Roedd trafodaethau'n parhau o ran adrodd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol pan fydd honno mewn ffurf sy'n fwy cyflawn.

- **Llywodraethu** - Unwaith eto, nodwyd materion a oedd yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol yn 2013/14. Yn ogystal, rhoddodd y Cyngor y gorau i ddefnyddio'r system electronig yr oedd wedi ei defnyddio yn y cyfnodau blaenorol i gofnodi cydymffurfiaeth. At adeg adroddi, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch a ddylid caffael system ar gyfer ei defnyddio yn ystod 2014/15 a sut y dylid gwneud hynny. Heb system o'r fath, mae'n anodd dangos bod y polisïau wedi eu cylchredeg yn ddigonol i'r staff perthnasol a'u bod wedi eu darllen a'u deall ac wedi cytuno i lynu wrth y polisïau hynny.

  Yn dilyn adolygiad thematig gan Archwilio Mewnol mewn perthynas â chydymffurfio gyda pholisïau, yn gorfforaethol mae data-bas o bolisïau wrthi'n cael ei sefydlu ynghyd â manylion am awduron y polisïau, dyddiadau'r adolygiad diwethaf o'r polisïau a'r dyddiad adolygu nesaf, y corff awdurdodi (os yw'n berthnasol) a phenderfyniadau o ran polisïau 'allweddol' a'r gynulleidfa darged. Gobeithir y bydd modd defnyddio'r data-bas i fwydo i mewn i'r system electronig ar gyfer cydymffurfio gyda pholisïau unwaith y bydd system o'r fath wedi cael ei chaffael a'i gweithredu.

  Gwyddys bod angen adolygu rhai meysydd polisi, e.e. y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contract sydd wrthi'n cael sylw yn y Swyddogaeth Adnoddau. Mae'r SIRO hefyd wedi cychwyn cyflwyno cyfres o bolisïau Llywodraethu Gwybodaeth a fydd hefyd yn cryfhau llywodraethu ledled y Cyngor.

  Mae cydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau yn elfen allweddol o fframwaith Llywodraethu'r Cyngor. Mae methiant i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn golygu bod mwy o risg na fyddir yn cydymffurfio â nhw.

- **Rheoli Gwybodaeth** - Adolygwyd trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2013/14. Ail-gadarnhawyd ac ymhelaethwyd yn yr adolygiad hwn ar y gwendidau yr oeddid yn ymwybodol ohonynt yn nhrefniadau'r Cyngor. Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp

Prosiect Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu cysylltiedig i sicrhau fod yr argymhellion a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu gweithredu yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ar adeg adrodd, roedd rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu ar yr argymhellion a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2014/15. Yn y cyfamser, bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwendidau a nodwyd yn parhau.

- **Gweithredu Systemau** – Gweithredodd y Cyngor ar systemau newydd pwysig yn 2013/14 gan gyflwyno systemau ariannol allweddol newydd yn lle'r hen rai. Roedd gweithredu'r system hefyd yn golygu creu archebion, derbynebion am nwyddau ac awdurdodau archebion yn electronig yn y Gwasanaethau yn hytrach na'n ganolog yn y Gwasanaeth Cyllid. Mae adolygiadau o'r Lejer, systemau Credydwyr a Dyledwyr yn dilyn gweithredu'r drefn newydd wedi nodi rhai bylchau o ran rheolaeth ac achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth o ran rheoli'r systemau ac mae staff y Swyddogaeth Adnoddau wrthi'n rhoi sylw i'r rhain.

  Fel gyda gweithredu pob system sylweddol, disgwylir materion rheolaeth o'r fath, ond maent yn parhau i fod yn risg i'r Cyngor oni roddir sylw iddynt yn brydlon.

Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor a bod angen parhau i weithio arnynt i roi sylw iddynt yn 2014/15.

**4.5** Dylid nodi na all unrhyw system o reolaeth fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt yn erbyn camddatganiadau pwysig neu golled.

Ni wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ac a gwblhawyd nodi unrhyw feysydd o bryder sy'n cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol neu yn gritigol o safbwynt busnes y Cyngor yn gyffredinol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn 4.4 uchod.

## 5. DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

**5.1** Bydd canlyniad yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio trwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol y Rheolwr Archwilio. Adroddir ar unrhyw adolygiad system fydd yn derbyn barn sicrwydd 'Coch' mewn manylder i'r Pwyllgor Archwilio.

**5.2** Cyflwynwyd un adroddiad o'r fath i'r Pwyllgor Archwilio yn 2013/14. Roedd yr adolygiad hwn yn ymwneud â'r system Credydwyr yn dilyn gweithredu CIVICA. Cafodd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ynghyd â phrofion ychwanegol o'r dyddiad gweithredu hyd at y dyddiad profi eu cynnal ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd adroddiad drafft gyda Barn Sicrwydd CAG ddiwygiedig, sef Coch/Ambr.

**JOHN FIDOE**
**RHEOLWR ARCHWILIO** **3 EBRILL 2014**

**ATODIAD A**

## Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod ynghyd â'r farn CAG

| | Teitl yr Adroddiad | Blwyddyn y Cynllun AM | Maes Gwasanaeth | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Incwm Arforol | 2012/13 | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 2 | Lwfans Aelodau – Dilyn i fyny | 2012/13 | Corfforaethol | TERFYNOL | Cynnydd Da |
| 3 | Prif System Gyfrifo | 2012/13 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 4 | Derbyn Arian | 2012/13 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 5 | Y Gyflogres | 2012/13 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 6 | Rhenti Tai | 2012/13 | Cyllid | TERFYNOL | Red/Ambr |
| 7 | Gweithredu CIVICA | 2012/13 | Cyllid | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 8 | Ysgol David Hughes | 2012/13 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 9 | Ysgol Biwmares | 2012/13 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 10 | Systemau Adnoddau Dynol – Hunanwasanaeth a'r Gyflogres | 2013/14 | Corfforaethol | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 11 | Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – Arbedion Effeithlonrwydd | 2013/14 | Corfforaethol | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 12 | Partneriaethau - Trefniadau Llywodraethiant | 2013/14 | Corfforaethol | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 13 | Rhenti Tai | 2013/14 | Tai | Yn mynd rhagddo | |
| 14 | Arferion ar gyfer Penodeion / Dirprwyon | 2013/14 | Gwasanaethau Cymdeithasol | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 15 | Taliadau Uniongyrchol – Dilyn i fyny | 2013/14 | Gwasanaethau Cymdeithasol | TERFYNOL | Cynnydd Da |
| 16 | Hel Arian | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 17 | Mân-Ddyledwyr | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Coch/Ambr |
| 18 | Taliadau Credydwyr | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Coch |
| 19 | Lejer Ariannol a Chysoni gyda'r Banc | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Coch/Ambr |
| 20 | Lejer CIVICA – Adolygiad ar Ôl Gweithredu | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 21 | Budd-daliadau Tai | 2013/14 | Cyllid | **TRAFODWYD** | |
| 22 | Rheoli'r Trysorlys | 2013/14 | Cyllid | **TRAFODWYD** | |
| 23 | Y Dreth Gyngor | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 24 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 25 | Y Gyflogres | 2013/14 | Cyllid | **DRAFFT** | Gwyrdd/Ambr |
| 26 | Prosesau Hawlio Grantiau | 2013/14 | Cyllid | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 27 | Ffioedd Parcio a Rhybuddion Tâl Ychwanegol - Cydweithredol | 2013/14 | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 28 | Cael Gwared ar Wastraff – gan gynnwys Gwastraff Masnachol | 2013/14 | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | TERFYNOL | Gwyrdd |

| | Teitl yr Adroddiad | Blwyddyn y Cynllun AM | Maes Gwasanaeth | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| 29 | Bathodynnau Glas | 2013/14 | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 30 | Cynllun Grant Eiddo a'r Amgylchedd (PEG) | 2013/14 | Tai | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 31 | Canolfan Hamdden David Hughes | 2013/14 | Dysgu Gydol Oes | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 32 | Ysgol Bodorgan | 2013/14 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 33 | Ysgol Gyfun Llangefni | 2013/14 | Ysgol Uwchradd | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 34 | Ysgol Kingsland | 2013/14 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 35 | Ysgol Llanfachraeth | 2013/14 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 36 | Ysgol Sefydliadol Caergeiliog | 2013/14 | Ysgol Gynradd | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 37 | Ysgol David Hughes | 2013/14 | Ysgol Uwchradd | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 38 | Ysgolion – Dilyn i Fyny Coch a Coch/Ambr | 2013/14 | Ysgolion | TERFYNOL | Cynnydd Anfoddhaol |
| 39 | Brecwast am ddim LlC | 2013/14 | Addysg | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 40 | Adolygiad Thematig o Ysgolion | 2013/14 | Addysg | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 41 | Trefniadau Gwrth-dwyll | Dim yn y Cynllun | Corfforaethol | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 42 | Caffael AD | Dim yn y Cynllun | Adnoddau Dynol | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 43 | Siecio Stoc UCA | Dim yn y Cynllun | UCA Tai | TERFYNOL | Gwyrdd |
| 44 | Staff Asiantaeth – Dulliau Talu | Dim yn y Cynllun | Cyllid | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 45 | Cyfatebu NFI | Dim yn y Cynllun | Corfforaethol | TERFYNOL | Gwyrdd/Ambr |
| 46 | Orchard – Rheoli Mynediad Rhesymegol | Dim yn y Cynllun | Tai | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 47 | Trin Credydwyr a Dyledwyr – Symud i CIVICA | Dim yn y Cynllun | Cyllid | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 48 | Microsoft Outlook - Gweinyddiaeth | Dim yn y Cynllun | TGCh | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 49 | TAW - Fframwaith | Dim yn y Cynllun | Cyllid | **DRAFFT** | Gwyrdd/Ambr |
| 50 | Grant Priffyrdd – Hawliad Hwyr - Cyf 1862.13/14 | Dim yn y Cynllun | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | TERFYNOL | Ymgynghorol |
| 51 | Credydwyr – Dilyn i Fyny Adroddiad Sicrwydd Coch | Dim yn y Cynllun | Cyllid | **DRAFFT** | d/b Diweddariad Barn Credydwyr |

Coch: 1 Coch/Ambr: 4
Gwyrdd/Ambr: 11 Gwyrdd: 17 Ymgynghorol: 14

Anghyflawn/Dim Barn ar 31/03/14 : 1 gwaith yn mynd rhagddo – 2 trafodwyd – 1 drafft i ddilyn i fyny wedi ei gyhoeddi = 4